**Cyfarfod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr**

**MS Teams**

**Dydd Mawrth 11 Mawrth 2024, 13:00 - 15:00**

**<u>Yn bresennol</u>**

Julie Morgan Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Andy Pithouse Cynghorydd Arbennig i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Alwyn Jones Cadeirydd
Denise Moultrie Llywodraeth Cymru
Mark Pruce Llywodraeth Cymru
Joseph Wilton Llywodraeth Cymru
Bobbie-Jo Haaroff Gofalwr di-dâl
Jayne Newman Gofalwr di-dâl
Mico Zenati-Parsons Gofalwr Ifanc a'r Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc
Rachel Clement Plant yng Nghymru
Kath Proudfoot Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr
Kim Dolphin Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr
Claire Morgan Gofalwyr Cymru
Valerie Billingham Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
Vanessa Webb Prifysgol Abertawe
Diane Seddon Prifysgol Bangor
David Watkins Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Naheed Ashraf Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Pennie Muir Cymorth Prosiectau Rhanbarthol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Marie Davies Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Amy Hawkins Cyngor Dinas Abertawe
Alyson Hoskins Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Naomi Harper Cyngor Sir y Fflint
Natasha James Cyngor Bro Morgannwg

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

Taryn Stephens Llywodraeth Cymru
Kate Cubbage Cyfarwyddwr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr
Rachel Williams Cynghrair Gofal
Kate Young Fforwm Cymru Gyfan
Jon Day Gofal Cymdeithasol Cymru
Sean O'Neill Plant yng Nghymru
Victoria Lloyd Age Cymru
Elizabeth Flowers Swyddfa'r Comisiynydd Plant
Jenny Oliver Pennaeth Profiad Pobl Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Claire Roche Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ffion Johnson Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Angela Hughes Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Avril Bracey Cyngor Sir Caerfyrddin
Iain McMillan Cyngor Bro Morgannwg

Y Cyng. Jane Tremlett   Cyngor Sir Caerfyrddin

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y cyllid ar gyfer yr Ŵyl Gofalwyr Ifanc a gynhelir ym mis Awst 2024, a soniodd am fynychu'r digwyddiad yn y blynyddoedd blaenorol a gwerth yr ŵyl o ran y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i ofalwyr ifanc. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd yn mynychu digwyddiad Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar 13 Mawrth i ddathlu Diwrnod Gofalwyr Ifanc. Parhau y mae'r ffrwd waith sy'n adolygu ymwybyddiaeth o'r cerdyn adnabod Gofalwyr ifanc, a'r nifer sy'n manteisio ar y cyfle i gael y cerdyn hwnnw.

Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn dathlu 50 mlynedd ers sefydlu ei helusen gychwynnol. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y gwaith hynod werthfawr y mae'r ymddiriedolaeth yn ei wneud wrth gefnogi gofalwyr di-dâl. Cydnabuwyd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad Cyflym o ran gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ac Asesiadau Anghenion Gofalwyr.

Gadawodd y Dirprwy Weinidog y cyfarfod.

## 3. Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar 18 Ionawr 2024

*Adborth gan y Grŵp*

Bydd Denise Moultrie yn darparu Cylch Gorchwyl diwygiedig cyn diwedd mis Mawrth. Rhoddwyd diweddariadau ar y camau gweithredu blaenorol. Mae'r cyfarfod wyneb yn wyneb bellach wedi ei drefnu ar gyfer mis Mehefin, ac mae gwahoddiadau wedi eu hanfon. Mae angen cwblhau manylion y lleoliad a bydd gwahoddiad diwygiedig yn cael ei anfon. Bydd sillafiad cyfenw aelod o'r grŵp yn cael ei gywiro.

Cytunwyd ar y nodyn o'r cyfarfod diwethaf.

**Cam Gweithredu: Bydd Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei gylchredeg eto ymhlith aelodau'r grŵp erbyn diwedd mis Mawrth.**

**Cam Gweithredu: Anfon gwahoddiad wedi ei ddiweddaru ar gyfer y cyfarfod ym mis Mehefin.**

**Cam Gweithredu: Sillafiad enw i'w gywiro**

## 4. Diweddariad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

**Denise Moultrie**

Rhoddwyd diweddariad ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a'r arolwg arfaethedig a fyddai'n cael ei anfon i awdurdodau lleol. Mae'r arolwg hwn wedi ei anelu at dair lefel

(Pennaeth Gwasanaeth/Uwch Arweinydd; Rheolwr Gwasanaeth/Rheolwr Tîm; Ymarferydd / Swyddog Gofalwyr) o fewn yr awdurdodau lleol i edrych ar wybodaeth, cyngor a chymorth ac Asesiadau Anghenion Gofalwyr. Bydd mewnbwn gan y byrddau iechyd yn cael ei drafod ar wahân.

*Adborth gan y Grŵp*

Codwyd materion sy'n ymwneud â sut mae gofalwyr yn cael eu cofnodi ar systemau'r byrddau iechyd, gan fod meddygon teulu a staff gofal iechyd hefyd yn cyfeirio gofalwyr. Trafodwyd cynwysoldeb ynghyd ag ymwybyddiaeth o nifer yr arolygon a roddwyd i'r awdurdodau lleol, a'r angen i fod yn ystyriol o'r angen i gynnwys grwpiau cymunedol sy'n rhoi cymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'n bwysig manteisio ar gyfleoedd i geisio barn amrywiaeth eang o ofalwyr di-dâl, yn enwedig y rhai nad ydynt efallai mewn cysylltiad â'r rhwydweithiau gofalwyr sydd ar waith.

Nodwyd y derminoleg ar gyfer yr arolwg a fydd yn cael ei gwblhau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfeirio at y term 'gofalwr'. Cyfeiriwyd at arolwg Tracio'r Ddeddf fel mecanwaith sy'n bodoli eisoes ar gyfer sicrhau bod llais y gofalwr di-dâl yn cael ei glywed, a chadarnhawyd bod copïau caled o'r arolwg ar gael, ac nad yw ar gael ar-lein yn unig.

## 5. Data Cyfrifiad Awdurdodau Lleol

**Joseph Wilton**

Rhoddodd Joseph Wilton ddiweddariad ynghylch camau gweithredu'r Grŵp Cynghori o ran creu cyfrifiad ar gyfer gofalwyr di-dâl. Mae canllawiau drafft wedi eu rhoi ar waith gan ddefnyddio'r cyfrifiad oedolion a phlant fel canllaw, a byddant yn cael eu hanfon i awdurdodau lleol erbyn diwedd y flwyddyn. Wedyn, cânt eu treialu a'u profi, a chaiff data eu casglu yn ystod blwyddyn ariannol 2025/2026 er mwyn adrodd yn ôl yn 2026/2027. Bydd hyn yn helpu i wella systemau a chasglu data gofalwyr di-dâl a gedwir gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

*Adborth gan y Grŵp*

Cadarnhaodd Joseph Wilton nad oedd y canllawiau drafft yn barod i'w rhannu eto. Trafodwyd demograffeg a chwmpas y gweithgarwch casglu data a chysondeb ymysg awdurdodau lleol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y casgliad o ddata gofalwyr a oedd wedi ei grynhoi ar gyfer 2021 ar lefel uwch na data cyfrifiad 2011. Soniodd Joseph Wilton am gasglu data cyfrifiad a chymorth gan awdurdodau lleol o ran darparu data. Yna trafodwyd amserlenni ynghyd â chysondeb ac ansawdd yr wybodaeth.

## 6. Yr wybodaeth ddiweddaraf am Gardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc

**Mark Price**

Rhoddwyd gwybodaeth gefndir gryno ynghylch y cerdyn adnabod gofalwr ifanc. Yna, rhoddodd Mark Price ddiweddariad i'r grŵp ar y trafodaethau gyda sampl o

awdurdodau lleol a gynhaliwyd ganol mis Ionawr i edrych ar arferion gorau a'r rhwystrau sy'n atal ymwybyddiaeth o'r cerdyn. Mae papur bellach wedi cael ei baratoi, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymestyn y sgwrs i gynnwys pob awdurdod lleol. Hefyd, tynnwyd sylw at ymwybyddiaeth fferyllfeydd o'r cerdyn adnabod, a'r camau nesaf i'w cymryd fel rhan o'r dull gweithredu hwn. Ymdriniwyd hefyd â meysydd fel terfyn oedran y cerdyn, gostyngiadau, a chyfleoedd i ymgysylltu â gofalwyr ifanc a meithrin ymddiriedaeth. Siaradodd Mark Price hefyd am ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a swyddogion Addysg Llywodraeth Cymru fel rhan o'r gwaith hwn, yn ogystal â gweithio gyda Mico Zenati-Parsons o'r Grŵp Cynghori ar Ofalwyr Ifanc. Bydd potensial i ail-lansio'r cerdyn adnabod yn ystod yr haf.

*Adborth gan y Grŵp*

Cafwyd un sylw yn dweud y dylid hyrwyddo'r cerdyn adnabod mewn ysgolion cynradd yn ogystal ag mewn ysgolion uwchradd. Trafodwyd hefyd y defnydd o'r cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn ogystal â'r manteision i'r rheini sy'n cael y cerdyn a'i effeithiau. Gwnaed sylw hefyd ynghylch ymwybyddiaeth mewn ysgolion a chyngor gwahanol yn cael ei roi mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Nodwyd yr angen i hyrwyddo'r cerdyn trwy ymgysylltu â'r Trydydd Sector, ynghyd â chael trafodaeth ar ostyngiadau. Roedd pryder hefyd bod y neges ynghylch cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn aneglur. Cafwyd deialog i drafod a ddylai fod yn gerdyn cenedlaethol. Gofynnodd y Cadeirydd bod mater y cerdyn adnabod gofalwr ifanc yn cael ei godi eto yn y cyfarfod nesaf.

Amlygwyd y cysylltiadau â byrddau iechyd, ac fel rhan o'r drafodaeth ar fferyllfeydd gofynnwyd a fyddai modd cynnal arolwg o feddygfeydd hefyd. Nodwyd y cyhoeddusrwydd a oedd yn digwydd drwy Fferyllwyr Cymunedol Cymru, a bod canllawiau wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer meddygfeydd a fferyllfeydd.

**Cam Gweithredu:** Dylid cynnwys y Cerdyn Gofalwyr Ifanc fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

## 7. Diweddariad y Gynghrair Gofalwyr

### Claire Morgan

Soniodd Claire Morgan am y camau sy'n cael eu gweithredu gan aelodau, gan gynnwys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, o ran cyfleoedd dysgu a datblygu i barafeddygon. Rhoddodd Grŵp Clefydau Prin y GIG gyflwyniad ar strwythur newydd Gweithrediaeth y GIG a chymorth i ofalwyr. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Ofalwyr Cymru ynghylch y Ddeddf Absenoldeb Gofalwr.

Adborth gan y Grŵp

Gofynnodd aelod o'r grŵp i Claire Morgan ddarparu manylion cyswllt ar gyfer y Grŵp Clefydau Prin.

**Cam Gweithredu:** Claire Morgan i ddarparu manylion cyswllt fel y gofynnwyd.

## 8. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Ddeddf Absenoldeb Gofalwr

**Claire Morgan**

Bydd y Ddeddf yn dod i rym ar 6 Ebrill 2024. Gellir dod o hyd i fanylion am y Ddeddf ar wefan Gofalwyr Cymru - Deddf Absenoldeb Gofalwr | Gofalwyr Cymru (carersuk.org)

Mae Gofalwyr Cymru yn cynnal cyfres o weminarau i helpu i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno'r Ddeddf yng Nghymru. Roedd nifer da wedi mynychu'r gweminarau, ac roedd yr adborth a gafwyd hefyd yn gadarnhaol. Mae gwybodaeth ysgrifenedig hefyd wedi ei chyhoeddi. Trefnir digwyddiad dathlu ar gyfer y Senedd ym mis Ebrill. Bydd hwn yn cael ei fynychu gan gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

## 9. Cyfarfod wyneb yn wyneb o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar 4 Mehefin – syniadau ar gyfer y cyfarfod

**Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd eitemau a oedd wedi cael eu hawgrymu ar gyfer yr agenda, megis cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

*Adborth gan y Grŵp*

Roedd syniadau eraill yn cynnwys adolygiad o'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofalwyr, i edrych ar enghreifftiau o arferion da gan awdurdodau lleol, fformatau asesiadau a gynhyrchwyd ar y cyd, yn ogystal â chyllid rhyddhau o'r ysbyty. Bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle gwych i gryfhau'r system gyfathrebu o fewn y grŵp.

## 10. Unrhyw Fater Arall

Yn y cyfarfod blaenorol, roedd y grŵp wedi penderfynu na fyddai bellach yn defnyddio'r term 'anodd eu cyrraedd'. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth am derminoleg bosibl arall, a chytunodd y Cadeirydd fod angen ystyried hyn ymhellach.

## 11. Y Cyfarfod Nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 4 Mehefin.